

## ❖ 'LLE BU'R DECHRAU?'

*Ioan yr Apostol***Darllen: Ioan 1:1–5, 10–14****Myfyrdod**

'Lle bu'r dechrau?' Dyna a ofynnant.

'Dywed y stori eto.'

Ac mi wn beth maent yn dymuno ei glywed –  
stori'r gwesty a'r stabl,

y baban yn gorwedd yn y preseb,

bugeiliaid yn gwyllo'u praidd

a'r doethion yn teithio o'r dwyrain.

Gwn hefyd pam eu bod yn gofyn,

oherwydd pwy ohonom na wfreiddiwyd gan y digwyddiadau hynny,

y dydd hwnnw pan ddaeth y Gair yn gnawd

a byw yma yn ein plith ni?

Ond er mor hyfryd yw'r hanes, nid yno bu dechrau'r daith;

dydy'r hanes hwnnw ond rhan fechan o'r darlun.

Rhaid mynd yn ôl lawer iawn pellach –

cyn Bethlehem,

cyn y proffwydi,

cyn y Ddeddf,

cyn bod amser, hyd yn oed,

oherwydd yn y fan honno bu'r cychwyn:

yn llythrennol 'yn y dechreuad'.

Yno yr oedd pwrpas Duw ar waith,

ei Air creadigol a gwardigol

yn dwyn goleuni a chariad i'r byd,

yn ffurfio nid yn unig y nefoedd a'r ddaear

ond bywydau pawb,

pob gŵr, gwraig a phlentyn.

Y rhyfeddod fod Duw,

nid yn unig wedi'n creu,

ond drwy Grist yn benderfynol o'r dechrau

i rannu ein bywyd,

i ymgawdoli,

i uniaethu ei hunan yn llwyr

â'n llawenydd a'n tristwch,

â phrydferthwch a hagrwech y ddynoliaeth.

Mae'r peth yn anghredadwy!

Duw yn dymuno i ni ei adnabod,

nid fel ei greaduriaid

ond fel ei blant,

nid fel pypedau

ond fel pobl yn ymateb yn rhydd i'w gariad,

gan ddatguddio'n raddol ei bwrpas,

rhoi cip i ni ar ei deyrnas,

ac yn goron ar y cyfan,

ying nghyflawnder yr amser,

daeth y Gair yn gnawd a byw yn ein plith,

yn llawn gras a gwirionedd.

Nid gweithred o banig oedd yr ymgawdoliad

ond rhywbeth a gynlluniwyd  
cyn llunio'r byd,  
cyn lledu'r nefoedd wen.  
Felly, y tro nesaf y clywch chi'r hanes am y stabl a'r preseb,  
y bugeiliaid yn rhyfeddu  
a'r doethion yn talu gwrogaeth,  
oedwch am eiliad  
a myfyriwch ar yr hyn a wnaeth y cyfan yn bosibl,  
y pwrpas tragwyddol a fu'n paratoi'r ffordd i Grist,  
ac yna gofynnwch i chi eich hunan:  
a ydych chi'n barod i ymateb i'w ddyfodiad?

### **Gweddi**

O! Dduw grasol,  
ar waetha'n hanufudd-dod  
y mae dy gariad di'n parhau.  
Felly yn awr ac felly y bu o'r dechrau,  
dy natur di yw trugarhau.  
Helpa ni i sylweddoli ehangder dy ffyddlondeb,  
ac i ddefnyddio'r tymor hwn  
i agor ein calonnau i'th ras,  
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies**